# Templed ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA)

| | |
|---|---|
| **Teitl / Darn o waith:** | Y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) |
| **Rhif MAL cysylltiedig** (os yw'n berthnasol) | |
| **Enw'r Swyddog:** | Sian Brown |
| **Adran:** | Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet |
| **Dyddiad:** | 01/03/2018 |
| **Llofnod:** | |

Byddwch cystal â chwblhau'r ffurflen hon a'i chadw ar gyfer eich cofnodion ar iShare. Efallai y gofynnir i chi ddangos y ddogfen hon yn ddiweddarach i brofi eich bod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd o roi sylw dyledus i hawliau plant e.e. ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, i ddibenion monitro, neu fel gwybodaeth i'w hadrodd i'r Cynulliad.

Ar ôl ei gwblhau, dylech hefyd anfon copi o'r asesiad ymlaen at Dîm Gweithredu'r Mesur at ddibenion monitro gan ddefnyddio'r blwch postio pwrpasol CRIA@llyw.cymru.

Os nad yw swyddogion yn sicr ynghylch cwblhau asesiad neu beidio, dylent bob amser geisio cyngor gan Dîm Gweithredu'r Mesur drwy anfon unrhyw gwestiynau ymlaen i'n blwch postio CRIA@llyw.cymru.

Efallai y dymunwch groes-gyfeirio gydag asesiadau effaith eraill a gyflawnwyd.

**Noder. Rhaid cyhoeddi pob asesiad a wneir ar gyfer deddfwriaeth ynghyd â'r darn o waith perthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'n rhaid i bob asesiad arall gael ei restru yng Nghylchlythyr Hawliau Plant Llywodraeth Cymru a rhaid iddo fod ar gael ar gais. Caiff Gweinidogion eu hannog, fodd bynnag, i gyhoeddi pob asesiad a gwblheir.**

# Chwe Cham at Sylw Dyledus




## Cam 1. Beth yw’r darn o waith a’i amcan(ion)?

**Cefndir**

Ar 13 Gorffennaf 2017, cafodd Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)[1] ("y Bil i Ymadael â'r UE") ei gyflwyno gan Lywodraeth y DU yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae'r Bil i Ymadael â'r UE yn diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac yn darparu y bydd y corff cyfan o gyfraith yr UE (yn ddarostyngedig i rai eithriadau penodol) yn cael ei gorffori mewn deddfwriaeth ddomestig pan fydd y DU yn ymadael â'r UE.

Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno bod angen deddfwriaeth i gynnig sefydlogrwydd a pharhad wrth i'r DU ymadael â'r UE. Mae'n hanfodol darparu sicrwydd ac eglurder i ddinasyddion a busnesau yn ystod cyfnod o newidiadau digynsail. Y ffordd orau o gyflawni hyn fyddai i Senedd y DU ddeddfu Bil sy'n berthnasol i'r DU gyfan ac sy'n parchu'r setliad datganoli. Fodd bynnag, wrth i Lywodraeth y DU gyflwyno'r Bil i Ymadael â'r UE fel y cyfrwng deddfwriaethol i gyflawni'r amcan hwn, roedd yn amlwg nad dyna oedd ei hymagwedd.

Mae Llywodraeth Cymru ar y cyd â Llywodraeth yr Alban wedi ceisio mynd i'r afael â'u pryderon drwy weithio gyda Llywodraeth y DU i ddiwygio'r Bil i Ymadael â'r UE. Yn absenoldeb cytundeb, cafodd nifer o welliannau arfaethedig i Fil y DU eu cyhoeddi ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban a fyddai, o’u pasio, yn parchu'r setliadau datganoli. Cafodd y gwelliannau hynny eu cyflwyno i'w trafod yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin lle cafwyd pleidlais arnynt, ond ni chawsant eu pasio.

Gan na chafodd y gwelliannau arfaethedig i'r Bil i Ymadael â'r UE a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru eu pasio, ac na chafodd unrhyw welliannau ystyrlon eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU, nid oes modd i Weinidogion Cymru argymell i'r Cynulliad roi cydsyniad mewn perthynas â'r Bil hwn wrth iddo adael Tŷ'r Cyffredin.

Mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd yn cyflwyno gwelliannau i agweddau datganoli Bil y DU yn ystod cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i

[1] https://services.parliament.uk/bills/2017-19/europeanunionwithdrawal.html

weithio gyda Llywodraeth y DU i geisio dod i gytundeb ar welliannau i'r Bil i Ymadael â'r UE, ond mae'n rhaid iddi baratoi at y posibilrwydd na fydd y Cynulliad yn rhoi cydsyniad. Mae'r gwaith paratoi hwn wedi cynnwys datblygu y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) ("y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE").

Mae dau brif amcan i'r Bil hwn. Yr amcan cyntaf, yn gyson â'r Bil i Ymadael â'r UE, yw sicrhau bod y gyfraith yn parhau i weithio'n effeithiol wrth i'r DU ymadael â'r UE. Yr ail amcan yw sicrhau bod y Cynulliad a Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am gymryd y camau deddfwriaethol angenrheidiol mewn perthynas â chyfraith yr UE sy'n gymwys o ran Cymru mewn meysydd datganoledig.

Bydd y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE, o'i basio gan y Cynulliad, yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru greu corff o gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE drwy reoliadau. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar faterion datganoledig sydd wedi'u cynnwys yn y canlynol:

- Cyfraith uniongyrchol yr UE
- Deddfiadau sy'n deillio o'r UE
- Darpariaeth a wneir o dan bwerau sy'n ymwneud â'r UE.

Mae cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE i'w chreu drwy reoliadau a wneir o dan y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE, felly ni fydd y Bil ei hun yn arwain at unrhyw newidiadau ymarferol ar unwaith. O ganlyniad i hynny, ni fydd y Bil ei hun yn gwneud unrhyw newidiadau i gyfraith yr UE. Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu sicrhau drwy reoliadau sy'n cael eu gwneud dan y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE, a fydd ond yn cael effaith ar ymadawiad y DU â'r UE.

Fodd bynnag, yn gyffredinol, amcan polisi y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yw darparu bod yr un rheolau a chyfreithiau yn gymwys yng Nghymru ar y diwrnod ar ôl ymadael â'r hyn oedd yn gymwys y diwrnod cyn hynny.

Os bydd y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn cael ei basio gan y Cynulliad, byddwn yn ystyried pa asesiadau effaith pellach sy'n angenrheidiol fel rhan o unrhyw raglen o is-ddeddfwriaeth dan y Bil. Mae'r dadansoddiad canlynol felly yn canolbwyntio'n bennaf ar y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil ond yn ystyried, i'r graddau y bo'n bosibl, effeithiau posib y rhaglen o is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil.

Bydd yr asesiad effaith hwn yn cael ei adolygu (os oes angen) wrth i'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE symud ymlaen drwy gyfnodau'r Cynulliad Cenedlaethol.

## Cam 2. Dadansoddi'r effaith

**<u>CYFRAITH CYMRU SY'N DEILLIO O'R UE</u>**

### Cyffredinol

Y prif gynnig yn y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yw rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru gynnal yr hawliau a'r rhwymedigaethau presennol sy'n gymwys i Gymru o dan gyfraith yr UE. Felly, nid bwriad y Bil hwn yw cael effaith ar unwaith. Y rheoliadau a wneir o dan y Bil fydd yn gwneud y newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol.

Mae pwerau Gweinidogion Cymru o dan y Bil wedi'u llunio'n benodol i'w harfer er mwyn

sicrhau parhad a bod yr hawliau a'r rhwymedigaethau presennol yn cael eu dargadw. Fodd bynnag, bydd angen gwneud rhywfaint o addasiadau er mwyn sicrhau bod modd i'r llyfr statud weithredu'n effeithiol. Bydd angen gwneud rhywfaint o ddewisiadau polisi wrth fwrw ati â'r addasiadau hyn, ond eto, rhaid iddynt gadw at y prif bolisi o sicrhau parhad.

Nid yw'n bosibl ar hyn o bryd nodi a dadansoddi'r effeithiau posibl ar blant a phobl ifanc o ganlyniad i'r rheoliadau a wneir o dan y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal unrhyw asesiad o effaith, lle y bo'n briodol, wrth ddatblygu unrhyw reoliadau a wneir o dan y Bil hwn. Mae Adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth arfer eu swyddogaethau (gan gynnwys gwneud unrhyw reoliadau), roi sylw i Siarter y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn ("y CCUHP"). Felly, byddai unrhyw asesiadau effaith yn nodi sut y mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i ddarpariaethau'r CCUHP.

Yn gyffredinol, ni ragwelir y bydd pasio'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn effeithio ar hawliau plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, ceir isod ddadansoddiad o'r ffactorau posibl a allai effeithio rywfaint ar blant a phobl ifanc.

**Y Siarter Hawliau Sylfaenol – dull gweithredu cyffredinol**

Mae'r dull gweithredu sy'n cael ei ddilyn yn y Bil i Ymadael â'r UE wedi dylanwadu ar ystod y pwerau a'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE er mwyn sicrhau bod modd i'r ddau fil weithredu wrth ochr ei gilydd. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â'r darpariaethau yn y Bil i Ymadael â'r UE sydd i'w gweithredu'n gyffredinol. Mae un darpariaeth o'r fath yn ymwneud â Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd ("y Siarter"). Mae cymal 5(4) o'r Bil i Ymadael â'r UE yn darparu nad yw'r Siarter yn ffurfio rhan o gyfraith ddomestig ar nac ar ôl y diwrnod ymadael.

Ar 5 Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddogfen *Charter of Fundamental Rights of the EU Right by Right Analysis*[2] sy'n gosod barn Llywodraeth y DU am effaith y darpariaethau yn y Bil i Ymadael â'r UE sy'n ymwneud â'r Siarter. Mae'n datgan nad oedd y Siarter, ym marn Llywodraeth y DU, yn creu unrhyw hawliau newydd a'i bod yn hytrach yn cadarnhau'r hawliau sylfaenol, sy'n rhwymo mewn cyfraith, oedd eisoes yn bodoli mewn dogfen newydd, orfodol[3].

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn glir na ddylai ymadawiad y DU â'r UE arwain mewn unrhyw ffordd at wanhau amddiffyniadau hawliau dynol, gan gynnwys hawliau plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, er mwyn hyrwyddo eglurder, sefydlogrwydd a pharhad, ac i sicrhau bod modd i'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE weithredu wrth ochr y Bil i Ymadael â'r UE, nid yw'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn gwyro'n sylweddol oddi wrth y safbwynt ar y Siarter y darperir ar ei chyfer yn y Bil i Ymadael â'r UE.

Nid yw'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE, felly, yn gwneud darpariaeth i gorffori

[2] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/664891/05122017_Charter_Analysis_FINAL_VERSION.pdf

[3] Gweler paragraff 5.

darpariaethau'r Siarter a fyddai o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Mae'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE, yn wahanol i'r Bil i Ymadael â'r UE, yn ceisio cynnal gwerth deongliadol y Siarter ac yn gofyn am i unrhyw gwestiynau gerbron y llysoedd am ddilysrwydd, ystyr neu effaith cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE gael eu penderfynu, cyn belled ag y bo'n berthnasol, yn unol â'r Siarter.

Byddai cymryd cam pellach a cheisio corffori'r Siarter dan y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn debygol o fod yn aneffeithiol yn rhinwedd gweithredu cymal 5(4) o'r Bil i Ymadael â'r UE a fyddai yn taflu amheuon difrifol, o leiaf, ar ddilysrwydd a gweithrediad y darpariaethau.

**Y Siarter – effaith ar blant a phobl ifanc**

*Cyffredinol*

Ystyriwyd pa effaith, os o gwbl, fyddai peidio â chorffori darpariaethau datganoledig y Siarter o dan y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn ei chael ar blant a phobl ifanc.

Mae Erthygl 51 o'r Siarter yn darparu bod y Siarter yn gymwys i'r Aelod Wladwriaethau pan fyddant yn gweithredu cyfraith yr UE yn unig. Felly, er mwyn parhau â'r hawliau a'r rhyddid presennol o dan gyfraith yr UE, byddai'r Siarter ond yn berthnasol i gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE ac nid y gyfraith yn gyffredinol fel y mae'n gymwys o ran Cymru yn y meysydd datganoledig.

Mae Llywodraeth y DU yn nodi bod mwyafrif yr hawliau yn y Siarter yn seiliedig ar hawliau tebyg y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae hawliau'r Confensiwn hwn wedi'u corffori mewn cyfraith ddomestig yn rhinwedd Deddf Hawliau Dynol 1998. Un feirniadaeth o'r safbwynt hwn yw bod y sail yn fwy cul ar gyfer cyflwyno heriau a bod y camau unioni yn fwy gwan o dan y Ddeddf Hawliau Dynol o gymharu â'r Siarter[4].

Yn sgil y trefniadau datganoli, nid yw beirniadaeth o'r fath mor berthnasol o ran Cymru. Mae hynny oherwydd natur pwerau y Cynulliad fel sy'n cael eu llywodraethu gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac yn arbennig cymal 108. Mae'n darparu nad yw darpariaeth Deddf gan y Cynulliad yn gyfraith os yw'n anghydnaws â'r Confensiwn, yn union yr un ffordd nad yw darpariaeth Deddf gan y Cynulliad yn gyfraith os yw'n anghydnaws â chyfraith yr UE, sy'n cynnwys y Siarter. Mae'r sail ar gyfer cyflwyno heriau a'r camau unioni sydd ar gael mewn perthynas â deddfwriaeth gan y Cynulliad a gweithredoedd Gweinidogion Cymru yr un fath boed ar sail bod yn anghydnaws â chyfraith yr UE neu â'r Confensiwn.

*Erthyglau penodol y Siarter*

Mae nifer o Erthyglau'r Siarter wedi'u hanelu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol at hawliau plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, byddai unrhyw effaith negyddol yn cael ei lleddfu gan y mesurau diogelu presennol ar gyfer plant a phobl ifanc o dan gyfraith ddomestig. Isod, ceir dadansoddiad o ddarpariaethau'r siarter sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â phlant a phobl ifanc.

Dyma rai ohonynt:

[4]Cyd-bwyllgor Hawliau Dynol Senedd y DU: https://publications.parliament.uk/pa/jt201719/jtselect/jtrights/774/774.pdf gweler paragraffau 9 i 12.

- Erthygl 14: yr hawl i gael addysg
- Erthygl 21: peidio â gwahaniaethu
- Erthygl 24: hawliau'r plentyn
- Erthygl 32: gwahardd llafur plant a diogelu pobl ifanc yn y gwaith

*Article 14: right to education*

*1. Everyone has the right to education and to have access to vocational and continuing training.*
*2. This right includes the possibility to receive free compulsory education.*
*3. The freedom to found educational establishments with due respect for democratic principles and the right of parents to ensure the education and teaching of their children in conformity with their religious, philosophical and pedagogical convictions shall be respected, in accordance with the national laws governing the exercise of such freedom and right.*

Mae'r hawl i gael addysg o dan Erthygl 14 o'r Siarter ond yn gymwys wrth weithredu cyfraith yr UE[5]. Mae'r hawl i gael addysg, ym mhob agwedd, wedi'i ddiogelu yn Erthygl 2 o Brotocol Cyntaf Confensiwn Hawliau Dynol Ewrop. Mae Erthygl 2 o'r Protocol Cyntaf yn darparu na wrthodir yr hawl i unrhyw berson gael addysg, ac mae'n dilyn Erthygl 14 (3) y Siarter yn fras. Nid yw Deddf gan y Cynulliad yn gallu cynnwys darpariaeth sy'n anghydnaws â Chonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop[6], a byddai unrhyw ddarpariaeth o'r fath yn anghyfreithlon. Yn yr un modd, ni all Gweinidogion Cymru wneud, cadarnhau na chymeradwyo unrhyw is-ddeddfwriaeth na gweithredu mewn unrhyw ffordd sy'n anghydnaws ag unrhyw un o'r hawliau yng Nghonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop[7].

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 hefyd yn berthnasol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i ofynion y CCUHP wrth arfer eu swyddogaethau. Mae'r CCUHP hefyd yn cynnwys Erthygl ar yr hawl i gael addysg. Mae Erthygl 28 yn cydnabod hawl y plentyn i gael addysg, yn enwedig argaeledd addysg gynradd ac uwchradd, gan gynnwys addysg gyffredinol a galwedigaethol.

Mae fframwaith deddfwriaethol domestig hefyd ar gael sy'n sicrhau bod plant yn cael addysg.

Yn sgil yr elfennau hyn o gyfraith ddomestig, ni fydd y ffaith nad yw'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth gyfatebol i Erthygl 14 o'r Siarter yn cael effaith o gwbl ar allu plant a phobl ifanc i gael addysg.

*Article 21: non-discrimination*

*1. Any discrimination based on any ground such as sex, race, colour, ethnic or social origin, genetic features, language, religion or belief, political or any other opinion, membership of a national minority, property, birth, disability, age or sexual orientation*

[5] Gweler Erthygl 51(1) sy'n llywodraethu maes cymhwyso'r Siarter.

[6] Adran 108(6)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

[7] Adran 81(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

*shall be prohibited.*

Mae Erthygl 21(1) yn cyfeirio at wahardd gwahaniaethu, gan gynnwys ar sail oedran, os yw Aelod Wladwriaethau yn gweithredu cyfraith yr UE.

Mae Erthygl 14 o Gonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop yn darparu y bydd hawliau a rhyddid y Confensiwn yn cael eu diogelu heb wahaniaethu ar bob sail amrywiol sydd wedi'i restru yn Erthygl 14, sy'n cynnwys ar sail unrhyw 'statws arall'. Mae'r llysoedd wedi cadarnhau bod 'statws arall' yn cynnwys oedran. Mae unrhyw ddarpariaeth o Ddeddf gan y Cynulliad neu is-ddeddfwriaeth gan Weinidogion Cymru yn anghyfreithlon i'r graddau y mae'n anghydnaws â Chonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop. Mae unrhyw weithred arall gan Weinidogion Cymru hefyd yn anghyfreithlon os yw'n anghydnaws â'r Confensiwn.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2006 a Deddf Cydraddoldeb 2010 yn darparu fframwaith deddfwriaethol domestig i atal gwahaniaethu. Mae oedran yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac mae'r Ddeddf yn gweithredu i atal gwahaniaethu ar sail oedran. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu a datblygu cyfle cyfartal wrth arfer eu swyddogaethau.

Mae Erthygl 2 o'r CCUHP yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â diogelu plant rhag gwahaniaethu. Mae'n cynnwys sicrhau hawliau'r CCUHP a'u parchu heb wahaniaethu, gan gynnwys ar sail oedran. Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i hyn wrth arfer eu swyddogaethau.

*Article 24: the rights of the child*

*1. Children shall have the right to such protection and care as is necessary for their well-being. They may express their views freely. Such views shall be taken into consideration on matters which concern them in accordance with their age and maturity.*

*2. In all actions relating to children, whether taken by public authorities or private institutions, the child's best interests must be a primary consideration.*

*3. Every child shall have the right to maintain on a regular basis a personal relationship and direct contact with both his or her parents, unless that is contrary to his or her interests.*

Yn ôl y ddogfen egluro[8] a gafodd ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r Siarter, mae Erthygl 24 yn seiliedig ar y CCUHP, ac yn benodol ar Erthyglau 3, 9, 12 a 13. Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r hawliau hyn wrth arfer eu swyddogaethau.

Mae cyfraith ddomestig yn adlewyrchu'r mesurau diogelu yn y CCUHP. Yng Nghymru, mae fframwaith deddfwriaethol ar waith i sicrhau bod llesiant plant yn cael ei ddiogelu, ac mae'n cynnwys Deddf Plant 1989, Deddf Plant 2004 a Deddf Gwasanaethau

[8] http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=CELEX%3A32007X1214%2801%29 Cafodd y ddogfen egluro ei pharatoi yn wreiddiol o dan awdurdod Presidiwm y Confensiwn a ddrafftiodd y Siarter. Mae wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r addasiadau i destun y Siarter a'r newidiadau i gyfraith yr UE. Nid oes statws cyfreithiol i'r ddogfen, ond mae'n werthfawr i ddehongli ac egluro darpariaethau'r Siarter.

Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae Erthygl 8 o Gonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop hefyd yn sicrhau yr hawl i gael bywyd preifat a theuluol, ac mae'n ymwneud yn arbennig â'r berthynas rhwng rhieni a'u plant. Byddai darpariaeth Deddf gan y Cynulliad neu unrhyw weithred gan Weinidogion Cymru a fyddai'n mynd yn groes i'r hawl hwn yn anghyfreithlon.

*Article 32: prohibition of child labour and protection of young people at work*

*The employment of children is prohibited. The minimum age of admission to employment may not be lower than the minimum school-leaving age, without prejudice to such rules as may be more favourable to young people and except for limited derogations.*

*Young people admitted to work must have working conditions appropriate to their age and be protected against economic exploitation and any work likely to harm their safety, health or physical, mental, moral or social development or to interfere with their education*

Yn seiliedig ar Gyfarwyddeb Cyngor 94/33 ar ddiogelu pobl ifanc yn y gwaith, mae'r Erthygl hwn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chyflogi plant a phobl ifanc. Mae Cyfarwyddeb 94/33 wedi'i gweithredu'n llawn yn y DU, er enghraifft drwy Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 a Deddf Plant 1989.

Mae Erthygl 32 o'r CCUHP hefyd yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â diogelu hawliau plant rhag cael eu hecsbloetio'n economaidd ac mewn perthynas â chyflogi plant yn gyffredinol y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw iddi wrth arfer eu swyddogaethau.

**Ymgynghori**

Mae'r Cynulliad wedi cytuno bod y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE i'w drin fel Bil Brys. Yn sgil natur frys y Bil, ni fu'n bosibl cynnal ymgynghoriad â rhanddeiliaid na darparu rhestr gynhwysfawr o'r rhai fydd yn cael eu heffeithio ganddo.

Fodd bynnag, ni fydd y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Bydd unrhyw effaith yn dod o reoliadau sy'n cael eu gwneud dan y Bil. Lle bo'n briodol ac yn angenrheidiol, bydd dadansoddiad yn cael ei gynnal o effaith y rheoliadau sy'n cael eu gwneud dan y Bil. Bydd hyn yn cynnwys, fel y bo'n briodol, trafodaeth neu ymgynghori â phobl â nodweddion gwarchodedig. Bydd lefel a natur unrhyw ymgynghoriad o'r fath yn dibynnu ar y rheoliadau dan sylw. Prif amcan polisi'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yw sicrhau parhad. Felly mae'r pwerau i wneud rheoliadau yn y Bil wedi'u llunio i gael eu harfer mewn ffordd a fydd yn sicrhau, cyn belled ag y bo'n bosibl, bod y rheolau a'r cyfreithiau sy'n gymwys cyn ymadael yn parhau i fod yn gymwys ar ôl ymadael.

**Casgliad**

Mae'r penderfyniad i ymadael â'r UE wedi'i wneud. Bwriad y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yw gwneud y newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol i sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl ymadael. Bydd y camau deddfwriaethol angenrheidiol yn cael eu cymryd yn y rheoliadau a wneir o dan y Bil. Nid yw'r Bil ei hun

yn gwneud unrhyw newidiadau deddfwriaethol a bydd yn cael effaith fach iawn ar blant a phobl ifanc.

Yr unig effaith bosibl a allai godi ar blant a phobl ifanc yw os na fyddai'r pwerau o dan y Bil yn ymestyn i gynnwys gwneud darpariaeth gyfatebol mewn cyfraith ddomestig i ddarpariaethau'r Siarter sy'n ymwneud â materion wedi'u datganoli. Fodd bynnag, mae unrhyw effaith bosibl yn annhebygol a byddai, mewn unrhyw achos, yn isel oherwydd y mesurau diogelu presennol sy'n cael eu cynnig o dan gyfraith ddomestig fel yr amlinellir yn y dadansoddiad uchod. Bydd hyn, ynghyd â'r gofyniad i gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE gael ei dehongli yn unol â'r Siarter, a'i bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i'r CCUHP wrth arfer y pwerau o dan y Bil, yn golygu na fydd unrhyw effaith andwyol ar hawliau plant a phobl ifanc.

Bydd hyn yn cael ei adolygu'n barhaus wrth i'r Bil gael ei weithredu, ac ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Yna bydd modd mynd i'r afael ag unrhyw fylchau a nodwyd yn y mesurau diogelu neu'r hawliau sy'n cael eu cynnig i blant.

**PŴER I WNEUD DARPARIAETH YN CYFATEB I GYFRAITH YR UE AR ÔL Y DIWRNOD YMADAEL A CHYDSYNIAD GWEINIDOGION CYMRU I IS-DDEDDFWRIAETH O FEWN CWMPAS CYFRAITH YR UE**

Ni ragwelir y bydd darpariaethau adrannau 11, 13 ac 14 o'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn cael effaith ar blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, gallai unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 11 ac unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n destun y gofyniad am gydsyniad dan adrannau 13 ac 14 gael effaith ar blant a phobl ifanc. Fel sy'n ofynnol dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, bydd Gweinidogion Cymru, wrth arfer y swyddogaethau hyn, yn rhoi sylw i ddarpariaethau'r CCUHP ac yn asesu unrhyw effaith bosib ar blant a phobl ifanc fesul achos.

## Cam 3. Sut mae eich darn o waith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?

Cyfeirir at yr Erthyglau CCUHP sydd fwyaf perthnasol i ddarpariaethau'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn y dadansoddiad uchod. Dyma'r Erthyglau sy'n cael eu hatgynhyrchu yn y Siarter, sef Erthyglau 2, 3, 9, 12, 13, 28 a 32. Mae'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn ei gwneud yn ofynnol i gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE gael ei dehongli yn unol â'r Siarter, ac felly, yn anuniongyrchol, Erthyglau'r CCUHP a nodwyd.

Bydd gofyn i Weinidogion Cymru roi sylw i'r CCUHP wrth wneud unrhyw reoliadau o dan y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE. Bydd hyn yn golygu y bydd hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried yn fanwl wrth gymryd y camau deddfwriaeth angenrheidiol i sicrhau bod yr hawliau'r a'r rhwymedigaethau o dan gyfraith yr UE yn parhau. Bydd effaith y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn cael ei hadolygu'n barhaus wrth ei weithredu a phan fydd y rheoliadau'n cael eu gwneud dan y Bil.

Ystyriwyd yr opsiwn arall o fynd ati i gorffori'r Siarter yn llawn mewn cyfraith ddomestig. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth yng nghymal 5(4) o'r Bil i Ymadael â'r UE sy’n darparu nad yw'r Siarter yn ffurfio rhan o gyfraith ddomestig ar nac ar ôl y diwrnod ymadael yn golygu na fyddai dull o'r fath yn effeithiol.

## Cam 4. Cefnogi'r Gweinidog a phenderfyniad y Gweinidog

Y prif gynnig yn y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yw darparu fframwaith cyfreithiol er mwyn gallu cadw'r hawliau a'r rhwymedigaethau yng nghyfraith yr UE wrth i'r DU ymadael â'r UE. Dywedwyd wrth y Gweinidogion y bydd y Bil hwn yn cael effaith fach iawn ar blant a phobl ifanc. Os bydd y Bil hwn yn cael ei basio gan y Cynulliad, bydd y Gweinidogion yn cael cyngor pellach ar gynnydd y gwaith gweithredu o dan y Bil, gan gynnwys unrhyw effeithiau y bydd y rheoliadau a wneir o dan y Bil yn eu cael ar blant a phobl ifanc. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno cyngor i Weinidogion ar gasgliadau'r asesiadau effaith fel y bo'n briodol.

## Cam 5. Cofnodi a chyhoeddi'r canlyniad

Gan fod yr asesiad effaith hwn yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth, bydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE.

## Cam 6. Adolygu'r darn o waith fel bo'r angen

Mae'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn darparu nifer o bwerau gwneud rheoliadau ar gyfer Gweinidogion Cymru. Bob tro y bydd Gweinidogion Cymru yn arfer y pwerau hyn, bydd gofyn iddynt roi sylw i'r CCUHP ac felly, ystyrir y graddau y bydd pob cyfres o reoliadau yn effeithio ar blant a phobl ifanc.

**<u>Cyllidebau</u>**

| | |
|---|---|
| **A oes gan y darn o waith unrhyw ddyraniad o gyllid yn gysylltiedig ag ef?**<br><br>**Gallwch nodi faint o'r cyllid hwn a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer plant o phobl ifanc?**<br><br>Mae'n bwysig, lle gwneir unrhyw newidiadau i gynlluniau gwario, gan gynnwys lle gwnaed dyraniadau ychwanegol neu arbedion, fod hyn wedi cael ei asesu a'i brofi fel rhan o'r broses Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.<br><br>**A oes yna wariant ychwanegol wedi cael ei nodi er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i gyfrannu at y darn o waith ac yn cael cyfle i ddweud eu dweud? Os oes, faint?** | **Nac oes**<br><br>**Na**<br><br><br><br><br><br><br>**Na** |

**Rhowch unrhyw fanylion:**

Mae'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE wedi'i lunio i ddarparu fframwaith cyfreithiol er mwyn gallu cadw'r hawliau a'r rhwymedigaethau yng nghyfraith yr UE wrth i'r DU ymadael â'r UE, gan gynnwys hawliau plant a phobl ifanc. Nid oes gan y Bil gyllideb benodol. Fodd bynnag, bydd rheoliadau yn cael eu gwneud o dan y bil fydd yn arwain at gostau gweinyddol, fel sydd wedi'i amlinellu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Nid yw'n hysbys ar hyn o bryd faint o'r costau fydd yn berthnasol yn benodol i hawliau plant a phobl ifanc.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal unrhyw asesiad o effaith, lle y bo'n briodol, wrth ddatblygu unrhyw reoliadau a wneir o dan y Bil hwn. Bydd hyn yn cynnwys, lle y bo'n briodol, manyleb y cyllidebau sy'n ymwneud â hawliau plant a phobl ifanc.

**Monitro ac Adolygu**

| | |
|---|---|
| **A oes angen inni fonitro / adolygu'r cynnig?** | **Nac oes** |
| **Os yn berthnasol: gosodwch y dyddiad adolygu** | |

Anfonwch gopi o'r Asesiad hwn at **cria@llyw.cymru** at ddibenion monitro.

**Gweler y dudalen nesaf am Restr Gryno o erthyglau'r CCUHP**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# CONFENSIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN

www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gytundeb rhyngwladol sy'n gwarchod hawliau dynol plant o dan 18 oed. Ar 16 Rhagfyr 1991, cytunodd Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn ffurfiol i sicrhau bod pob plentyn yn y DU yn cael yr holl hawliau fel y'u rhestrwyd yn y confensiwn.

Cafodd 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011' gefnogaeth unfrydol ar draws y pleidiau pan basiwyd ef yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 18 Ionawr 2011. Cafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 16 Mawrth 2011 a daeth i rym ar 16 Mai 2011.

Mae'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau sydd yn yr CCUHP a'i brotocolau dewisol.

Mae 54 o erthyglau yn y confensiwn. Mae Erthyglau 43-54 yn ymwneud â sut y dylai oedolion a llywodraethau weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gan bob plentyn hawl i'w hawliau. Mae'r wybodaeth a geir yma yn ymdrin ag erthyglau 1-42 sy'n cyflwyno sut y dylai plant gael eu trin.

I gael rhagor o wybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ewch i:
Wefan CCUHP Llywodraeth Cymru:
**www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk**

Clic - y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Cenedlaethol i Bobl Ifanc:
**www.cliconline.co.uk/cym/newyddion**

Gellir gweld 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011' yn:
**http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents**

WG16876

## Erthygl 1
Mae gan bob un dan ddeunaw oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn.

## Erthygl 2
Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hil, ei grefydd, ei alluoedd, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.

## Erthygl 3
Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

## Erthygl 4
Dylai llywodraethau ofalu bod yr hawliau hyn ar gael i blant.

## Erthygl 5
Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfeirio ac arwain eu plant fel eu bod, wrth dyfu, yn dysgu sut i ddefnyddio'u hawliau'n briodol.

## Erthygl 6
Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.

## Erthygl 7
Mae gan bob plentyn hawl i enw a gofrestrwyd yn gyfreithiol, hawl i genedligrwydd a hawl i adnabod ei rieni ac, i'r graddau sy'n bosibl, i dderbyn gofal ganddynt.

## Erthygl 8
Dylai llywodraethau barchu hawl plant i enw, cenedligrwydd a chlymau teulu.

## Erthygl 9
Ni ddylid gwahanu plant oddi wrth eu rhieni onid yw hyn er eu lles nhw'u hunain, er enghraifft os yw rhiant yn cam-drin neu'n esgeuluso plentyn. Mae gan blant y mae eu rhieni wedi gwahanu hawl i gadw mewn cysylltiad â'r ddau riant, oni fyddai hyn yn niweidio'r plentyn.

## Erthygl 10
Dylai teuluoedd sy'n byw mewn gwledydd gwahanol gael yr hawl i symud rhwng y gwledydd hynny fel y gall y rhieni a'r plant gadw mewn cysylltiad neu ddod at ei gilydd fel teulu.

## Erthygl 11
Dylai llywodraethau gymryd camau i gadw plant rhag cael eu cymryd allan o'u gwledydd nhw'u hunain yn anghyfreithlon.

## Erthygl 12
Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.

## Erthygl 13
Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw ac i eraill.

## Erthygl 14
Mae gan blant yr hawl i feddwl a chredu'r hyn a fynnant ac i arfer eu crefydd, cyhyd ag nad ydynt yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau. Dylai rhieni arwain eu plant yn y materion hyn.

## Erthygl 15
Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac i ymuno â grwpiau a sefydliadau, onid yw hyn yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.

## Erthygl 16
Mae gan blant yr hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu cadw rhag ymosodiadau ar eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teuluoedd a'u cartrefi.

## Erthygl 17
Mae gan blant yr hawl i wybodaeth ddibynadwy gan y cyfryngau torfol. Dylai teledu, radio a phapurau newydd roi gwybodaeth y gall plant ei deall ac ni ddylent hybu deunyddiau a allai niweidio plant.

## Erthygl 18
Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser. Dylai llywodraethau helpu rhieni trwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio.

## Erthygl 19
Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol, a'u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n edrych ar eu hôl.

## Erthygl 20
Rhaid i bobl sy'n parchu eu crefydd, eu diwylliant a'u hiaith edrych ar ôl plant na all eu rhieni ofalu amdanynt.

## Erthygl 21
Pan fo plant yn cael eu mabwysiadu, yr ystyriaeth gyntaf yw'r hyn sydd orau iddyn nhw. Dylai'r un rheolau gael eu cymhwyso os yw'r plant yn cael eu mabwysiadu yn y wlad lle y'u ganwyd neu'n cael eu cymryd i fyw mewn gwlad arall.

## Erthygl 22
Dylai plant sy'n dod i wlad fel ffoaduriaid gael yr un hawliau â phlant a anwyd yn y wlad honno.

## Erthygl 23
Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol.

## Erthygl 24
Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn iddyn nhw gadw'n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

## Erthygl 25
Dylai sefyllfa plant y mae eu hawdurdod lleol yn hytrach na'u rhieni yn gofalu amdanynt gael ei hadolygu'n rheolaidd.

## Erthygl 26
Dylai'r Llywodraeth roi mwy o arian ar gyfer plant teuluoedd mewn angen.

## Erthygl 27
Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio darparu hyn.

## Erthygl 28
Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

## Erthygl 29
Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, a'u diwylliant nhw ac eraill.

## Erthygl 30
Mae gan blant yr hawl i ddefnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, p'un ai yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif y bobl neu beidio.

## Erthygl 31
Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

## Erthygl 32
Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag gwaith sy'n beryglus neu a allai amharu ar eu hiechyd neu eu haddysg.

## Erthygl 33
Dylai'r Llywodraeth ddarparu ffyrdd o gadw plant rhag cyffuriau peryglus.

## Erthygl 34
Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag camdriniaeth rywiol.

## Erthygl 35
Dylai'r Llywodraeth ofalu na chaiff plant eu cipio neu eu gwerthu.

## Erthygl 36
Dylai plant gael eu gwarchod rhag gweithgarwch a allai amharu ar eu datblygiad.

## Erthygl 37
Ni ddylid trin plant sy'n torri'r gyfraith yn greulon. Ni ddylid eu rhoi mewn carchar gydag oedolion a dylid eu cadw mewn cysylltiad â'u rhieni.

## Erthygl 38
Ni ddylai llywodraethau adael i blant dan bymtheg oed ymuno â'r fyddin. Dylai plant mewn parthau rhyfel gael gwarchodaeth arbennig.

## Erthygl 39
Dylai plant sydd wedi cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin gael help arbennig i adfer eu hunan-barch.

## Erthygl 40
Dylai plant a gyhuddir o dorri'r gyfraith dderbyn help cyfreithiol. Dylid defnyddio dedfrydau o garchar i blant ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol yn unig.

## Erthygl 41
Os yw cyfreithiau gwlad arbennig yn gwarchod plant yn well nag erthyglau'r Confensiwn, yna dylai'r cyfreithiau hynny aros.

## Erthygl 42
Dylai'r Llywodraeth wneud y Confensiwn yn hysbys i bob rhiant a phlentyn.